

Adroddiad ar Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol y Bil Sgiliau ac Addysg Ôl-16

16 Rhagfyr 2021

1. Ar 9 Gorffennaf 2021, gosododd Gweinidog y Gymraeg ac Addysg Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ("y Memorandwm") ar y Bil Sgiliau ac Addysg Ôl-16 sydd gerbron Senedd y DU ar hyn o bryd.
2. Ar 13 Gorffennaf 2021, cyfeiriodd y Pwyllgor Busnes y Memorandwm at y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ("y Pwyllgor"); Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig; a'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad i'w ystyried. Pennodd y Pwyllgor Busnes derfyn amser ar gyfer cyflwyno adroddiad, sef 21 Hydref 2021. Trafodwyd y Memorandwm yn ein cyfarfodydd ar 23 Medi a 7 Hydref.
3. Yn dilyn hynny, gosodwyd Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol atodol ("y Memorandwm atodol") gan Lywodraeth Cymru ar 29 Hydref. Pennodd y Pwyllgor Busnes derfyn amser ar gyfer cyflwyno adroddiad, sef 16 Rhagfyr. Trafodwyd y Memorandwm atodol yn ein cyfarfodydd ar 18 Tachwedd, 2 Rhagfyr a 13 Rhagfyr.
4. Cyflwynodd Llywodraeth Cymru Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol atodol pellach ("y Memorandwm atodol pellach") ddydd Gwener 10 Rhagfyr. Oherwydd y terfyn amser ar gyfer cyflwyno adroddiad, nid oedd modd i ni drafod y Memorandwm atodol pellach yn fanwl yn ein cyfarfod ar 13 Rhagfyr. Fodd bynnag, rydym yn ymwybodol o gynnwys y Memorandwm ychwanegol hwn..
5. Mae'r adroddiad hwn yn ystyried y Memorandwm a'r Memorandwm atodol. Cafodd ei ddrafftio i helpu i lywio'r ddadl ynghylch y Memorandwm yn y Cyfarfod Llawn.



2. Y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol

6. Mae paragraff 5 o'r Memorandwm yn crynhoi'r Bil a'i amcanion polisi. Mae paragraffau 6 i 12 yn pennu'r darpariaethau yn y Bil y ceisir cydsyniad ar eu cyfer. Mae paragraffau 13 i 14 yn nodi barn Llywodraeth Cymru ar wneud y darpariaethau mewn Bil ar gyfer y DU, yn hytrach na thrwy ddeddfwriaeth y Senedd.

3. Darpariaethau yn y Bil y ceisir cydsyniad ar eu cyfer

7. Dim ond mewn perthynas â chymal 14 o'r Bil y mae Llywodraeth y DU wedi ceisio cynnig cydsyniad deddfwriaethol. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod angen cydsyniad deddfwriaethol y Senedd mewn perthynas â chymalau 1 a 4 hefyd. Gan ein bod yn trafod y Memorandwm a osodwyd gan Lywodraeth Cymru, mae'r adroddiad hwn yn cwmpasu'r tri chymal y mae Llywodraeth Cymru yn credu bod angen cydsyniad ar eu cyfer.

Cymal 1 (Cynlluniau gwella sgiliau lleol) a chymal 4 (dehongli)

8. Mae Cymal 1 yn darparu ar gyfer cynlluniau gwella sgiliau lleol, gan gyflwyno dyletswyddau ar ddarparwyr i gydweithredu â chyrff dynodedig sy'n cynrychioli cyflogwyr i ddatblygu cynlluniau gwella sgiliau lleol a rhoi sylw i'r cynlluniau ar ôl iddynt gael eu datblygu.

9. Mae'r cymal yn nodi bod yn rhaid i ddarparwyr perthnasol gydweithredu â chorff dynodedig sy'n cynrychioli cyflogwyr wrth ddatblygu cynllun gwella sgiliau lleol ar gyfer ardal benodedig (a ddiffinnir fel ardal yn Lloegr). Rhaid i'r ddarparwyr perthnasol helpu i sicrhau bod cynlluniau'n destun adolygiadau parhaus a'u bod yn cael eu diweddarau yn ôl yr angen, a'u bod yn rhoi sylw i'r cynllun diweddaraf a gyhoeddir gan yr Ysgrifennydd Gwladol wrth wneud penderfyniadau ar ddarpariaeth berthnasol yn y maes penodedig.

10. Bydd angen i ddarparwyr perthnasol ystyried canllawiau a gyhoeddir gan yr Ysgrifennydd Gwladol wrth ddatblygu cynlluniau gwella sgiliau lleol.

11. Mae cymal 4 yn darparu ar gyfer ystyr rhai ymadroddion a ddefnyddir yng nghymal 1, a'r ymadroddion perthnasol at ddibenion y Memorandwm hwn yw:

- ystyr "ddarparwr perthnasol" yw ddarparwr addysg neu hyfforddiant technegol ôl-16 sef —

(a) sefydliad yn y sector addysg bellach (o fewn yr ystyr a roddir gan adran 91(3) o Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992),

(b) darparwr addysg uwch (o fewn yr ystyr a roddir gan adran 83(1) o Ddeddf Addysg Uwch ac Ymchwil 2017),

(c) darparwr hyfforddiant annibynnol, neu

(d) awdurdod lleol yn Lloegr, Academi 16 i 19 neu ysgol a nodir neu a ddisgrifir mewn rheoliadau a wneir drwy offeryn statudol gan yr Ysgrifennydd Gwladol.

- ystyr "ardal benodedig" yw ardal yn Lloegr.

12. Byddai'r diffiniad o "ddarparwr perthnasol" yn cwmpasu darparwr yng Nghymru, fel coleg chweched dosbarth.

13. Nid yw Llywodraeth y DU yn ceisio cydsyniad deddfwriaethol y Senedd i'r ddau gymal hyn. Fodd bynnag, mae paragraff 9 o'r Memorandwm yn nodi:

"Gan fod darparwyr yng Nghymru'n gallu darparu addysg neu hyfforddiant technegol ôl-16 yr ystyrir ei fod yn berthnasol i ardal benodedig yn Lloegr, gall rhai darparwyr yng Nghymru ddod o fewn cwmpas y dyletswyddau uchod mewn perthynas â darpariaeth o'r fath."

Cymal 14 (Cefnogaeth ar gyfer dysgu gydol oes)

14. Mae'r cymal hwn yn addasu adran 22 o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998 ("Deddf 1998") sy'n rhoi pŵer cydredol eang i'r Ysgrifennydd Gwladol a Gweinidogion Cymru wneud rheoliadau sy'n awdurdodi neu'n ei gwneud yn ofynnol i roi grantiau neu fenthyciadau at unrhyw ddibenion rhagnodedig i fyfyrwyr cymwys mewn cysylltiad â dilyn cyrsiau addysg uwch neu addysg bellach a ddynodir gan neu o dan reoliadau.

15. Mae paragraff 11 o'r Memorandwm yn nodi:

"Mae rhai o swyddogaethau Gweinidogion Cymru o dan adran 22 o Ddeddf 1998 i'w harfer mewn perthynas â Chymru yn gydredol â'r Ysgrifennydd Gwladol. Nid oes yr un o'r addasiadau yn ymwneud yn benodol â swyddogaethau sy'n arferadwy gan Weinidogion Cymru o dan y ddarpariaeth hon. Fodd bynnag, mae Llywodraeth y DU yn bwriadu gwneud rheoliadau yn y dyfodol sy'n gweithredu'r Hawl i Fenthyciad Gydol Oes a bydd yn dibynnu ar swyddogaethau diwygiedig yr Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 22 o Ddeddf 1998 at y diben hwn. Mae'r dull a fabwysiadwyd gan Lywodraeth y DU mewn perthynas â'i diwygiadau arfaethedig i adran 22 o Ddeddf 1998 yn golygu y bydd yr addasiadau a gymhwysir mewn perthynas

â modiwlau cyrsiau yn cael eu dwyn ymlaen i ddarpariaethau sy'n arferadwy gan yr Ysgrifennydd Gwladol (yn gyddredol â Gweinidogion Cymru) mewn perthynas â Chymru, ac felly maent yn ddiwygiadau'n ymwneud â materion datganoledig yng Nghymru."

4. Y rhesymau dros wneud y darpariaethau hyn

16. Mae paragraff 13 o'r Memorandwm yn nodi'r rhesymau pam y mae angen cydsyniad y Senedd ar gyfer cymalau 1 a 4 ym marn Llywodraeth Cymru a pham na ddylid rhoi cydsyniad o'r fath:

"Mae posibilrwydd y bydd cymalau 1 a 4 o'r Bil yn effeithio ar sefydliadau yng Nghymru sy'n darparu addysg dechnegol ôl-16 sy'n berthnasol i ardal yn Lloegr. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn y gallai'r cymalau hyn gael yr effaith o osod dyletswyddau ar sefydliadau yng Nghymru sy'n darparu addysg yng Nghymru yn unig sydd hefyd ar gael i fyfyrwyr o Loegr os yw'r ddarpariaeth yn berthnasol i ardal benodedig yn Lloegr, yn ogystal â sefydliadau yng Nghymru sy'n darparu addysg o'r fath yn Lloegr. Gallai dyletswyddau o'r fath ei gwneud yn ofynnol i sefydliadau yng Nghymru ystyried anghenion sgiliau cyflogwyr yn Lloegr ar yr un pryd ag ymateb i anghenion sgiliau cyflogwyr yng Nghymru a blaenoriaethau Llywodraeth Cymru."

17. Ym mharagraff 18 o'r Memorandwm, mae'r Gweinidog yn ychwanegu y gallai'r darpariaethau yng nghymalau 1 a 4:

"...osod beichiau diangen ar sefydliadau Cymru. Gallai hyn arwain at ddargyfeirio adnoddau sefydliad yng Nghymru yn groes i'r gofyniad datganoledig i gyfeirio adnoddau mewn ymateb i flaenoriaethau Llywodraeth Cymru a'r rhai a nodwyd gan y Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol yng Nghymru."

18. Mae paragraff 14 o'r Memorandwm yn nodi'r rhesymau pam y mae Llywodraeth Cymru o'r farn ei bod yn briodol i'r Bil gynnwys darpariaeth ddatganoledig yng nghymal 14:

"Mae cymal 14 yn galluogi bwriad Llywodraeth y DU i gyflwyno system o gymorth modiwlaid i fyfyrwyr mewn perthynas â myfyrwyr sy'n hanu o Loegr. Mae'r angen i gael cydsyniad deddfwriaethol y Senedd yn ganlyniad i'r pwerau cyddredol rhwng yr Ysgrifennydd Gwladol a Gweinidogion Cymru mewn perthynas â Chymru o ran y swyddogaethau cymorth i fyfyrwyr o dan

Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998, fel y'u datganolwyd i Gymru. Nid yw cymal 14 yn effeithio'n uniongyrchol ar swyddogaethau cymorth i fyfyrwyr Gweinidogion Cymru. Efallai y bydd gan gynnig Llywodraeth y DU i gyflwyno cymorth modiwlaid i fyfyrwyr yn Lloegr oblygiadau i drefn cymorth i fyfyrwyr Llywodraeth Cymru. Mewn egwyddor, fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru'n cefnogi system fwy hyblyg o gymorth i fyfyrwyr."

5. Y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol

- 19.** Roedd y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol atodol ("y Memorandwm atodol") a osodwyd ar 29 Hydref yn ymwneud â diwygiadau a wnaed i'r Bil yn Nhŷ'r Arglwyddi sy'n effeithio ar gymalau 1 a 4 yn unig o'r Bil.
- 20.** Mae'r Memorandwm atodol yn nodi bod Llywodraeth Cymru yn argymhell na ddylai'r Senedd roi cydsyniad deddfwriaethol mewn perthynas â chymalau 1 a 4 o'r Bil, fel y'i diwygiwyd.
- 21.** Er bod Llywodraeth Cymru yn dal i gredu bod angen cydsyniad deddfwriaethol ar gyfer y ddau gymal hyn, nid yw Llywodraeth y DU wedi gofyn am gynnig mewn perthynas â'r ddau gymal hyn.

Cymal 1 (Cynlluniau gwella sgiliau lleol) a chymal 4 (dehongli)

- 22.** Mae'r cymalau hyn yn darparu ar gyfer cynlluniau gwella sgiliau lleol. Mae'r diwygiad perthnasol yn cyflwyno'r geiriau "a ariennir gan Loegr (English funded)", gan olygu bod cymal 1, fel y'i diwygiwyd yn cyflwyno dyletswyddau ar ddarparwyr a ariennir gan Loegr i gydweithredu â chyrrff dynodedig sy'n cynrychioli cyflogwyr i ddatblygu cynlluniau gwella sgiliau lleol a rhoi sylw i'r cynlluniau ar ôl iddynt gael eu datblygu.
- 23.** Mae cymal 4 yn darparu ar gyfer ystyr rhai ymadroddion a ddefnyddir yng nghymal 1, a'r diwygiadau perthnasol at ddibenion y Memorandwm atodol yw:
- ychwanegu diffiniad ar gyfer "a ariennir yn Lloegr (English funded)", y nodir ei fod yn golygu addysg neu hyfforddiant a ariennir yn gyfan gwbl neu'n rhannol gan yr Ysgrifennydd Gwladol; awdurdod cyfun; Awdurdod Llundain Fwyaf; neu awdurdod lleol yn Lloegr;
 - cadarnhad bod addysg neu hyfforddiant a ddarperir gan yr Ysgrifennydd Gwladol yn cynnwys addysg neu hyfforddiant y telir symiau mewn perthynas â hwy yn uniongyrchol i ddarparwr yr addysg neu'r hyfforddiant gan yr Ysgrifennydd Gwladol yn unol â darpariaeth mewn rheoliadau a wneir o dan adran 22(1) o Ddeddf

Addysgu ac Addysg Uwch 1998 (cymorth ariannol i fyfyrwyr) yn rhinwedd adran 22(2)(h) neu (i) o'r Ddeddf honno;

- cadarnhad, pan fo darparwr perthnasol sy'n darparu addysg neu hyfforddiant technegol ôl-16 a ariennir gan Loegr yn ymrwmo i drefniadau lle darperir yr addysg neu'r hyfforddiant hwnnw i gyd neu ran ohono gan ddarparwr perthnasol arall, bod yr addysg neu'r hyfforddiant a ddarperir o dan y trefniadau i'w drin fel addysg neu hyfforddiant technegol ôl-16 a ariennir gan Loegr a ddarperir gan yr ail ddarparwr perthnasol (yn ogystal â chan y cyntaf).

Safbwynt Llywodraeth Cymru

24. Yn y Memorandwm atodol, nododd Llywodraeth Cymru ei rhesymau pam na ddylid rhoi cydsyniad i'r cymalau hyn fel y'u diwygiwyd:

"Yn fy marn i, mae'r gwelliannau a wnaed i gymalau 1 a 4 o'r Bil yn ystod y Cyfnod Adrodd yn cynyddu'r posibilrwydd y gallai sefydliadau yng Nghymru fod yn ddarostyngedig i'r dyletswyddau mewn perthynas â chynlluniau gwella sgiliau lleol ar gyfer Lloegr. Bydd y darpariaethau hefyd yn creu ansicrwydd i sefydliadau yng Nghymru ynghylch a allai eu darpariaeth addysg a hyfforddiant ôl-16 fod yn ddarostyngedig i'r dyletswyddau a gynigir o dan Gymal 1 sy'n ymwneud â pharatoi a chyfrannu at gynlluniau gwella sgiliau lleol. Efallai na fydd sefydliadau'n gwybod a ystyrir bod rhai o'u cyrsiau yn "berthnasol" (material) i anghenion sgiliau ardal leol yn Lloegr. Gallai'r sefyllfa hon newid o flwyddyn i flwyddyn yn dibynnu ar nifer y myfyrwyr o Loegr sy'n dewis astudio mewn sefydliadau yng Nghymru. Mae hyn yn peri pryder arbennig gan fod y gwelliannau'n dod â chronfeydd cymorth i fyfyrwyr o fewn y diffiniad o beth yw addysg a hyfforddiant ôl-16 "a ariennir gan Loegr". At hynny, nid yw'r Bil yn diffinio ystyr addysg a hyfforddiant ôl-16 "technegol" (technical) ac mae'n agor y posibilrwydd y gallai ystod eang o gyrsiau ein sefydliadau addysg bellach ac uwch fod o fewn cwmpas dyletswyddau'r cynlluniau gwella sgiliau lleol.

Diben y cynlluniau gwella sgiliau lleol arfaethedig yw mynd i'r afael ag anghenion sgiliau ardaloedd lleol yn Lloegr. Rwyf yn bryderus y gallai gosod dyletswyddau ar sefydliadau yng Nghymru i roi sylw i anghenion sgiliau ardaloedd lleol yn Lloegr ddargyfeirio'r adnoddau oddi wrth y sefydliadau hynny sy'n ymateb i anghenion sgiliau Cymru. Nid wyf yn gwrthwynebu i sefydliadau addysg bellach ac addysg uwch yng Nghymru sy'n dewis

ymlwmo i drefniadau ariannu gyda Llywodraeth y DU ar gyfer darpariaeth benodedig a Llywodraeth y DU yn atodi telerau ac amodau i gyllid o'r fath. Fodd bynnag, nid wyf o'r farn bod gosod dyletswyddau statudol ar sefydliadau yng Nghymru naill ai'n angenrheidiol nac yn gymesur."

25. Mae'r Llywodraeth yn nodi ei phryderon hefyd y gallai'r cymalau hyn fod â goblygiadau ariannol i sefydliadau yng Nghymru sy'n darparu addysg neu hyfforddiant ôl-16 "yr ystyrir ei fod yn berthnasol i ardal benodedig yn Lloegr". Mae'n nodi:

"Mae'n anodd asesu maint goblygiadau o'r fath a allai godi yn sgil gofynion gweinyddol newydd sy'n gysylltiedig â chydymffurfio â'r dyletswyddau a osodir gan gymal 1 neu alwadau niferus am y cyllid a ddarperir gan Weinidogion Cymru. Bydd y goblygiadau i sefydliad unigol yn dibynnu p'un a ystyrir bod ei ddarpariaeth yn berthnasol i ardal benodedig yn Lloegr."

6. Trafodaeth a chasgliadau'r Pwyllgor

26. Trafodwyd y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol yn ein cyfarfod ar 23 Medi. Yn dilyn y cyfarfod hwnnw ysgrifennwyd at Weinidog y Gymraeg ac Addysg i ofyn am ragor o wybodaeth am nifer o faterion allweddol gan gynnwys:

- pa newidiadau y mae Llywodraeth Cymru yn eu ceisio i gymalau 1 a 4 a fyddai'n ei galluogi i argymhell rhoi cydsyniad; a manylion am y trafodaethau y mae wedi'u cael â Llywodraeth y DU ar ddiwygiadau posibl;
- eglurder ynghylch o ble y daeth gwybodaeth Llywodraeth Cymru am fwriadau Llywodraeth y DU i wneud rheoliadau sy'n gweithredu'r Hawl i Fenthyciad Gydol Oes o dan gymal 14;
- eglurder ynghylch a fydd y newidiadau yng nghymal 14 yn gymwys ai peidio pan fydd y pwerau'n cael eu harfer gan Weinidogion Cymru; ac a oes gan Weinidogion Cymru unrhyw fwriad i ddefnyddio'r pwerau, os cânt eu haddasu;
- pam nad yw Llywodraeth Cymru yn ceisio cydsyniad ar gyfer cymal 18 (rhestr o ddarparwyr perthnasol), pan nad oes dim yn y cymal sy'n cyfyngu ei gymhwysiad i Loegr yn unig;
- pam nad yw Llywodraeth Cymru yn ceisio cydsyniad ar gyfer cymal 25 (sefydliadau yn y sector addysg bellach: gweithdrefn ddynodi) pan fo Nodiadau Esboniadol y Bil

yn nodi bod y cymal yn gymwys i Gymru; a byddai darpariaeth gyfatebol o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.

- pam y bu oedi o saith wythnos cyn gosod y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol?

27. Mae copi o'r llythyr, ynghyd ag ymateb Gweinidog y Gymraeg ac Addysg wedi'i gynnwys yn Atodiad 1.

28. Gwnaethom hefyd ysgrifennu at yr Ysgrifennydd Gwladol dros Addysg. Mae copi o'r llythyr hwn wedi'i gynnwys yn Atodiad 2. Ar adeg ysgrifennu, nid ydym wedi cael ymateb eto.

29. Ar ôl i ni drafod y Memorandwm atodol, ysgrifennom at y Gweinidog y Gymraeg ac Addysg ar 19 Tachwedd yn gofyn am ragor o wybodaeth am y pwyntiau a ganlyn:

- Sut y gallai'r diwygiadau i gymalau 1 a 4 ei gwneud yn fwy tebygol y bydd sefydliadau yng Nghymru yn ddarostyngedig i'r dyletswyddau?
- Gofyn am ragor o wybodaeth am y trafodaethau parhaus â Llywodraeth y DU ynghylch diwygio'r Bil i fynd i'r afael â phryderon Llywodraeth Cymru.
- A fyddai angen cydsyniad y Senedd ar gyfer y cymal 25 newydd (darparu cyfleoedd ar gyfer datblygu sgiliau ac addysg)?

30. Mae copi o'r llythyr hwn wedi'i gynnwys yn Atodiad 1.

31. Atebodd y Gweinidog ar 25 Tachwedd 2021. Mae copi o'r llythyr hwn wedi'i gynnwys yn Atodiad 4. Yn y llythyr, nododd fod y trafodaethau ynghylch cymalau 1 a 4 yn parhau, a bod gwelliannau wedi'u cyflwyno a oedd yn mynd i'r afael â'i bryderon. Nododd hefyd y byddai Memorandwm atodol pellach yn cael ei osod "cyn gynted â phosibl" i adlewyrchu'r diwygiadau hyn.

32. Gosodwyd y Memorandwm atodol pellach wedi hynny ar 10 Rhagfyr. Yn y Memorandwm atodol pellach, nododd y Gweinidog fod y gwelliannau a gyflwynwyd i'r Bil yn mynd i'r afael â'i bryderon ynghylch rhoi dyletswyddau statudol ar sefydliadau yng Nghymru. Ychwanegodd fod y gwelliannau'n "dileu'r angen i geisio cydsyniad deddfwriaethol y Senedd ar gyfer cymalau 1 a 4", ac mae'r Pwyllgor yn nodi hynny. Fodd bynnag, mae'n siomedig na osodwyd y Memorandwm atodol pellach mewn da bryd i roi digon o amser i'r Pwyllgor ei drafod yn fanwl.

33. O ran cymal 15 ar hyn o bryd (sef cymal 14i yn y Bil gwreiddiol), credwn y dylai'r Senedd roi cydsyniad gan fod Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau nad yw'r addasiadau a nodir yng

ngghymal 14 yn effeithio ar bwerau Gweinidogion Cymru. Nododd Gweinidog y Gymraeg ac Addysg hefyd, pe bai pwerau Gweinidogion Cymru yn cael eu newid mewn ffordd debyg, y byddai hynny'n cael ei wneud drwy ddeddfwriaeth sylfaenol.

34. Rydym yn fodlon â'r esboniad pellach a roddwyd gan Lywodraeth Cymru ar gymal 18, ac nid oes angen cydsyniad o ran y cymal hwn yn ein barn ni. Byddai wedi bod yn ddefnyddiol pe bai'r wybodaeth ychwanegol hon wedi'i chynnwys yn y Memorandwm gwreiddiol. Fodd bynnag, o ran cymal 25, sef cymal 35 yn y Bil fel y'i diwygiwyd yn Nhŷ'r Arglwyddi ac wedyn cymal 31 yn dilyn diwygiadau yn Nhŷ'r Cyffredin, mae'r Gweinidog yn derbyn y byddai'n gymwys mewn perthynas â Chymru. Fodd bynnag, mae'n mynd ymlaen i ddweud nad yw'n gwneud "unrhyw newidiadau i'r gyfraith - egluro y mae ac ailddatgan y gyfraith mewn perthynas â Chymru, ac yn fy marn i nid oes angen cydsyniad y Senedd". O ran y prawf ynghylch a oes angen cydsyniad ar ddarpariaeth, rydym yn nodi nad yw'n berthnasol a yw'r ddarpariaeth yn newid, yn egluro neu'n ailddatgan y gyfraith. Y prawf a nodir yn Rheol Sefydlog 29 yw p'un a yw'r ddarpariaeth at unrhyw ddiben sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd ai peidio. Rydym o'r farn felly y dylid ceisio cydsyniad y Senedd o hyd, hyd yn oed os yw'r ddarpariaeth yn egluro ac yn ailddatgan y gyfraith bresennol yn yr achos hwn.

35. Nodwn resymau'r Gweinidog am yr oedi wrth osod y Memorandwm cychwynnol, ond er ein bod yn cydnabod yr heriau, rydym o'r farn na ddylid bod wedi oedi cyhyd cyn iddo gael ei osod. Mae'n bwysig cadw at yr amserlenni a nodir yn Rheolau Sefydlog y Senedd, oni bai fod amgylchiadau eithriadol. Yn fwy cyffredinol, rydym yn siomedig ynglŷn â'r oedi wrth osod y Memoranda Cymhwysedd Deddfwriaethol Atodol.

Atodiad 1 Gohebiaeth â Gweinidog y Gymraeg ac Addysg

Jeremy Miles AS

Gweinidog y Gymraeg ac Addysg

Dyddiad | Date: 24 Medi 2021

Pwnc | Subject: Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol y Bil Sgiliau ac Addysg Ôl-16

Annwyl Jeremy

Trafodwyd y Memorandwm hwn yn ein cyfarfod ar 23 Medi 2021. Fel y byddwch yn cofio, gwnaethom nodi y byddem yn ysgrifennu i geisio eglurder ynghylch nifer o faterion. Rydym hefyd yn ysgrifennu at yr Ysgrifennydd Gwladol dros Addysg (mae copi ynghlwm.)

Gan fod yn rhaid i'r Pwyllgor gyflwyno adroddiad ar y Memorandwm hwn erbyn 21 Hydref byddem yn gwerthfawrogi ymateb cyn gynted â phosibl, a dim hwyrach na dydd Gwener 1 Hydref, er mwyn ein galluogi i'w ystyried yn ein cyfarfod ar 7 Hydref.

Cymalau 1 (Cynlluniau gwella sgiliau lleol) a 4 (dehongli)

Mae'r Memorandwm yn nodi nad yw Llywodraeth Cymru yn argymhell y dylid rhoi cydsyniad deddfwriaethol ar gyfer y ddau gymal hyn.

A allwch amlinellu pa welliannau y byddai Llywodraeth Cymru am eu gwneud i bob un o'r darpariaethau hyn er mwyn eich galluogi i argymhell cydsyniad? A allwch hefyd amlinellu'r trafodaethau rydych wedi'u cael gyda Llywodraeth y DU mewn perthynas â chael y gwelliannau yr ydych yn eu ceisio, ac unrhyw ymateb yr ydych wedi'i gael?

Cymal 14 (Cefnogaeth ar gyfer dysgu gydol oes)

Mae'r Memorandwm yn nodi y bydd yr addasiadau y bydd cymal 14 yn eu gwneud i adran 22 o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998 yn dwyn ymlaen i ddarpariaethau sy'n arferadwy gan yr



Ysgrifennydd Gwladol (ar yr un pryd â Gweinidogion Cymru) mewn perthynas â Chymru ac felly maent yn welliannau mewn perthynas â materion datganoledig yng Nghymru. Mae hefyd yn nodi bod Llywodraeth y DU yn bwriadu gwneud rheoliadau yn y dyfodol sy'n gweithredu'r Hawl i Fenthyciad Gydol Oes a bydd yn dibynnu ar swyddogaethau diwygiedig yr Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 22 o Ddeddf 1998 at y diben hwn. Nid yw'r Memorandwm yn nodi o ble y daeth y wybodaeth hon am fwriadau Llywodraeth y DU. A allwch egluro o ble y daeth y wybodaeth hon?

Nid oes unrhyw beth yn y Bil i nodi y bydd yr addasiadau i adran 22 o Ddeddf 1998 yn berthnasol dim ond pan fydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn eu harfer. Nid yw'r Memorandwm yn egluro'r safbwynt ac nid oes ganddo fanylion ynghylch pam nad yw addasiadau a wneir o dan y cymal hwn yn ymwneud yn benodol â swyddogaethau Gweinidogion Cymru. A allwch ddarparu'r eglurder hwn? Os yw pwerau Gweinidogion Cymru yn cael eu newid gan yr addasiadau i adran 22, a allwch gadarnhau sut y cânt eu newid ac a oes gan Weinidogion Cymru unrhyw fwriad i ddefnyddio'r pwerau hyn sydd wedi'u haddasu ac, os felly, at ba ddiben? A allech hefyd gadarnhau, os cytunir ar y newidiadau, y bydd gennych yr un pwerau â'r Ysgrifennydd Gwladol mewn perthynas â chyllid myfyrwyr? Bydd y wybodaeth hon yn ein galluogi i benderfynu a ddylid argymhell yn ein hadroddiad i'r Senedd y dylid rhoi cydsyniad i gymal 14.

Cymalau ychwanegol

Cymal 18 (Rhestr o ddarparwyr perthnasol)

Mae cymal 18 o'r Bil yn galluogi'r Ysgrifennydd Gwladol i wneud rheoliadau sy'n darparu i'r Ysgrifennydd Gwladol gadw rhestr o 'ddarparwyr perthnasol' mewn perthynas ag 'addysg neu hyfforddiant perthnasol' sy'n bodloni rhai amodau, i'w nodi yn y rheoliadau. Nid oes unrhyw beth ar wyneb y Bil i nodi na all darparwr o Gymru fod yn 'ddarparwr perthnasol'. Yna mae Cymal 18(3) yn nodi'r hyn a olygir gan 'addysg neu hyfforddiant perthnasol', eto nid oes unrhyw beth ar wyneb y Bil sy'n nodi bod yn rhaid darparu addysg neu hyfforddiant o'r fath yn Lloegr yn unig. Nid oes unrhyw beth yng nghymal 18 ychwaith sy'n cyfyngu ei gymhwysiad i Loegr yn unig. A allwch nodi pam nad ydych yn ystyried bod angen cydsyniad y Senedd ar y cymal hwn?

Cymal 25 (Sefydliadau yn y sector addysg bellach: gweithdrefn ar gyfer dynodi)

Mae'r cymal hwn yn diwygio Deddf Addysg Bellach ac Uwch 1992. Mae'n newid y mecanwaith y gall yr Ysgrifennydd Gwladol ei ddefnyddio i ddynodi sefydliadau addysgol yn Lloegr fel rhai sy'n dod o fewn y sector addysg bellach statudol. Mae cymal 25(2) yn gwneud darpariaeth i egluro'r awdurdod priodol i wneud gorchmynion dynodi mewn perthynas â sefydliadau addysgol yng Nghymru. Mae'r Nodiadau Esboniadol i'r Bil hefyd yn nodi bod y cymal hwn yn berthnasol i Gymru; ac y byddai'r ddarpariaeth gyfatebol o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd. Yn sgil hyn, a allwch amlinellu pam nad yw Llywodraeth Cymru yn ystyried bod angen cydsyniad y Senedd ar gyfer y cymal hwn?

Oedi wrth osod y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol

Mae Rheol Sefydlog 29.2(i) yn ei gwneud yn ofynnol i Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol gael ei osod o fewn pythefnos ar ôl cyflwyno'r Bil fel arfer. Yn yr achos hwn, bu oedi o dros saith wythnos rhwng cyflwyno'r Bil, a'r Memorandwm yn cael ei osod. A allwch amlinellu pam y bu cymaint o oedi?

Edrychaf ymlaen at gael eich ymateb.

Yn gywir



Jayne Bryant AS
Cadeirydd

Amg: Llythyr at yr Ysgrifennydd Gwladol dros Addysg

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu'n Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.





Ein cyf/Ein cyf JMEWL/2376/21

Jayne Bryant AS
Cadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg
Senedd Cymru

1 Hydref 2021

Annwyl Gadeirydd,

Diolch am eich llythyr, dyddiedig 24 Medi, ynghylch y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer Bil Sgiliau ac Addysg Ôl-16 Llywodraeth y DU (y "Bil"). Rydych yn codi nifer o gwestiynau yn ymwneud â darpariaethau penodol yn y Bil, ac rwy'n ymateb iddynt isod.

Cymalau 1 (Cynlluniau gwella sgiliau lleol) a 4 (dehongli)

Nid yw Llywodraeth Cymru yn argymhell y dylid rhoi cydsyniad deddfwriaethol y Senedd mewn perthynas â chymalau 1 a 4 y Bil fel y'i cyflwynwyd. Ym mis Gorffennaf ysgrifennais at yr Ysgrifennydd Gwladol dros Addysg yn nodi fy mhryderon am effaith ymarferol y cymalau hyn. Yn ôl asesiad fy Adran, byddai'r cymalau hyn yn berthnasol i ddarparwyr addysg bellach neu sefydliadau addysg uwch yng Nghymru os bernir bod eu darpariaeth addysg dechnegol ôl-16 yn berthnasol i ardal benodol yn Lloegr. Gallai hyn olygu bod dyletswyddau yn cael eu gosod ar sefydliadau yng Nghymru sy'n darparu addysg yng Nghymru yn unig, y mae myfyrwyr o Loegr yn cael mynediad ati os yw'r ddarpariaeth yn berthnasol i ardal benodol yn Lloegr.

Ni fyddwn yn disgwyl i ddyletswyddau gael eu gosod ar ddarparwyr yng Nghymru mewn perthynas â darpariaeth a gyflwynir yng Nghymru, gan y gallai dyletswyddau o'r fath ei gwneud yn ofynnol i sefydliadau yng Nghymru roi sylw i anghenion sgiliau cyflogwyr yn Lloegr ar yr un pryd ag ymateb i anghenion sgiliau cyflogwyr Cymru a blaenoriaethau Llywodraeth Cymru. Yn benodol, nid wyf am i unrhyw sefydliadau yng Nghymru nad ydynt yn derbyn cyllid gan yr Ysgrifennydd Gwladol fod yn ddarostyngedig i ddyletswyddau i roi sylw i Gynlluniau Gwella Sgiliau Lleol yn Lloegr. Felly, byddwn yn disgwyl i welliannau gael eu gwneud mewn perthynas â chymalau 1 a 4 sy'n mynd i'r afael â'r pryderon hyn ac i gyfyngu'r rhain i sefydliadau yng Nghymru sy'n cael arian gan yr Ysgrifennydd Gwladol.

Yn dilyn fy llythyr, cafwyd trafodaethau cynhyrchol ar lefel swyddogion sydd wedi llywio'r Adran Addysg yn ei bwriad i gyflwyno gwelliannau mewn perthynas â chymalau 1 a 4. Ar hyn o bryd, mae fy swyddogion yn aros i weld y gwelliannau arfaethedig ynghylch perthynas cynlluniau gwella sgiliau lleol â sefydliadau yng Nghymru. Rhagwelaf y bydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn ysgrifennu ataf ar y mater hwn cyn gosod gwelliannau ar gyfer y Cyfnod Adrodd yn Nhŷ'r Arglwyddi. Yn amodol ar asesiad o ran cymhwysedd deddfwriaethol o effaith y gwelliannau hynny, bydd y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol yn cael ei ddiweddarau maes o law.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Gohebiaeth.Jeremy.Miles@llyw.cymru
Correspondence.Jeremy.Miles@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Cymal 14 (Cefnogaeth ar gyfer dysgu gydol oes)

Mae bwriadau polisi Llywodraeth y DU o ran cyflwyno Hawl i Fenthyciad Gydol Oes wedi'u nodi yn eu papur gwyn [*Skills for jobs: lifelong learning for opportunity and growth*](#). Ceir rhagor o fanylion am y cynigion yn yr [Aseiad Effaith](#) sy'n cyd-fynd â'r Bil, sy'n nodi: "*The current student finance system is underpinned by primary and secondary legislation. The government seeks to modify existing regulation-making powers in primary legislation to make specific provision for student finance in respect of modules of courses.*" Mae'r Aseiad Effaith hefyd yn nodi "*In order to introduce the LLE from 2025, secondary legislation will need to be laid in Parliament by summer 2024. We will consult on the detail and scope of the LLE this year.*"

Nid yw pwerau Gweinidogion Cymru yn cael eu newid gan yr addasiadau arfaethedig i adran 22 o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998 fel y darperir ar eu cyfer gan gymal 14 y Bil. Mae'r rhesymau dros hyn fel a ganlyn. Mae cymal 14 yn diwygio Deddf 1998 i ddarparu esboniad i adran 22 y Ddeddf honno (sy'n bŵer galluogi ar gyfer gwneud y rheoliadau cymorth i fyfyrwyr yng Nghymru a Lloegr) fel bod modiwlau o gyrsiau addysg uwch (ac nid dim ond y cyrsiau hyn yn eu cyfanrwydd) yn gymwys ar gyfer cymorth i fyfyrwyr. Dim ond i'r graddau y mae swyddogaethau yn arferadwy gan yr Ysgrifennydd Gwladol y mae'r esboniad yn effeithiol. Mae rhai o swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol yn arferadwy mewn perthynas â Chymru ochr yn ochr â Gweinidogion Cymru, er nad oes yr un o'r swyddogaethau hynny'n destun gwelliannau testunol i'w gwneud gan y Bil. Fodd bynnag, dim ond swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol sydd i'w diwygio, a gadewir swyddogaethau Gweinidogion Cymru mewn perthynas â chymorth i fyfyrwyr fel y maent.

Mae swyddogaeth yr Ysgrifennydd Gwladol mewn perthynas â gwneud rheoliadau o dan adran 22(1) sy'n awdurdodi cynnig grantiau neu fenthyciadau mewn cysylltiad â modiwlau cyrsiau AU neu AB yn arferadwy mewn perthynas â Lloegr yn unig. Mae'r angen am gydsyniad deddfwriaethol yn deillio o'r ffaith bod pwerau'r Ysgrifennydd Gwladol a Gweinidogion Cymru wedi'u gwahanu mewn ffordd anghyflawn pan ddatganolwyd y swyddogaethau cymorth i fyfyrwyr i Gymru o dan Ddeddf 1998.

Os caiff y Bil ei basio, ni fydd pwerau Gweinidogion Cymru o dan adran 22 Deddf 1998 yr un fath â phwerau'r Ysgrifennydd Gwladol. Bydd pwerau Gweinidogion Cymru yn parhau fel y maent ar hyn o bryd ac yn berthnasol i gyrsiau cyfan ond nid i fodiwlau cyrsiau o'r fath. Yn fy llythyr dyddiedig 9 Gorffennaf at yr Ysgrifennydd Gwladol dros Addysg, nodais mai drwy Fil Senedd y dylid cyflawni darpariaeth o'r fath mewn perthynas â Chymru. Yn ogystal, dywedais wrth yr Ysgrifennydd Gwladol ym mis Gorffennaf y byddai'n ddefnyddiol cael rhagor o fanylion am gynigion Llywodraeth y DU i gyflwyno Hawl i Fenthyciad Gydol Oes, ac y byddwn yn croesawu rhagor o wybodaeth am sut y bydd yr hawl arfaethedig yn effeithio ar symiau canlyniadol cyllidebol, a sut y gallai benthyciadau ar gyfer yr Hawl i Fenthyciad Gydol Oes fod ar gael i Lywodraeth Cymru.

Hyd yma, nid yw Llywodraeth y DU wedi cyhoeddi ei chynigion manwl ynghylch gweithredu a chyflwyno'r Hawl arfaethedig i Fenthyciad Gydol Oes, ac nid wyf wedi cael unrhyw wybodaeth bellach am y cynigion hyn gan yr Ysgrifennydd Gwladol. Cyfeiriwyd at y mater yn ystod fy sesiwn dystiolaeth i'r Pwyllgor ar 23 Medi lle nodais y bydd cyngor yn cael ei ddarparu ar y Memorandwm ar ôl i'r trafodaethau gyda Llywodraeth San Steffan ddod i ben.

Cymal 18 (Rhestr o ddarparwyr perthnasol)

Yn ôl [Nodiadau Esboniadol](#) y Bil, mae cymalau 18 i 21 yn gwneud y canlynol: "*enable the Secretary of State to make regulations to provide for a list of post-16 education or training providers, in particular Independent Training Providers ("ITPs"), to indicate which providers*

have met conditions that are considered to prevent or mitigate risks associated with the disorderly exit of a provider from the provision of education and training. Education or training is funded by various funding authorities.”

Mae cymal 18 yn darparu y caiff yr Ysgrifennydd Gwladol, drwy reoliadau, wneud darpariaeth: (a) i'r Ysgrifennydd Gwladol gadw rhestr o ddarparwyr perthnasol mewn perthynas ag addysg neu hyfforddiant perthnasol sy'n bodloni'r amodau a bennir yn y rheoliadau i fod ar y rhestr mewn perthynas â'r addysg neu'r hyfforddiant hwnnw; (b) mewn perthynas â'r rhestr.

Diben y rhestr yw atal awdurdodau cyllido rhag ymrwymo i drefniadau cyllido gyda darparwyr nad ydynt wedi'u rhestru (a 'rheoleiddio' trefniadau cyllido) – gweler cymal 19. Mae effaith y diffiniad o “ddarparwr hyfforddiant perthnasol” (“*relevant training provider*”) yng nghymal 18 yn golygu y gallai rhai darparwyr addysg a hyfforddiant annibynnol yng Nghymru ddod o fewn cwrpas y pŵer i wneud rheoliadau. Gallent, er enghraifft, gynnwys darparwyr hyfforddiant preifat sy'n gweithredu yng Nghymru sy'n cynnig darpariaeth addysg neu hyfforddiant ôl-16 yn Lloegr. Fodd bynnag, dim ond i'r graddau y cânt eu cyllido gan bersonau yn Lloegr (gweler cymal 19(7)) ac mewn perthynas â darparu addysg a hyfforddiant yn gyfan gwbl neu'n bennaf yn Lloegr. Yn fy marn i, nid yw cymalau 18 i 21 felly yn gyfystyr â "darpariaeth berthnasol" (“*relevant provision*”) o fewn ystyr Rheol Sefydlog 29.1, ac o ganlyniad nid oes angen cydsyniad y Senedd. Mae cymal 20 yn cynnwys darpariaethau ar gyfer dehongli cymalau 18 ac 19. Mae cymal 21 yn gwneud darpariaethau 'atodol' a gweithdrefnol mewn perthynas â rheoliadau o dan gymalau 18 ac 19.


Cymal 25 (Sefydliadau yn y sector addysg bellach: gweithdrefn ar gyfer dynodi)

Mae cymal 25 yn diwygio Deddf Addysg Bellach ac Uwch 1992 ac mae'n berthnasol i Gymru. Fodd bynnag, nid yw'n gwneud unrhyw newidiadau i'r gyfraith - egluro y mae ac ailddatgan y gyfraith mewn perthynas â Chymru, ac yn fy marn i nid oes angen cydsyniad y Senedd.

Oedi cyn gosod y Memorandwm

Mae'n bwysig bod unrhyw ddeddfwriaeth sy'n effeithio ar addysg bellach ac uwch yng Nghymru yn ystyried y cyd-destun Cymreig penodol. Bu oedi cyn gosod y memorandwm cydsyniad deddfwriaethol ar gyfer y Bil hwn oherwydd yr angen i ystyried y goblygiadau cyfreithiol a pholisi i Gymru sy'n deillio o ddarpariaethau cymhleth y Bil a thrafod gyda Whitehall yr effaith y gall darpariaethau drafft ei chael mewn perthynas â Chymru.

Yn gywir,



Jeremy Miles AS/MS
Gweinidog y Gymraeg ac Addysg
Minister for Education and Welsh Language

Jeremy Miles AS

Gweinidog y Gymraeg ac Addysg

Dyddiad | Date: 19 Tachwedd 2021

Pwnc | Subject: Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol y Bil Sgiliau ac Addysg Ôl-16

Annwyl Jeremy,

Yng nghyfarfod ein Pwyllgor ar 18 Tachwedd, trafodom y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol hwn. Mae gennym nifer o gwestiynau i'n helpu gyda'n trafodaethau.

Gan fod yn rhaid i'r Pwyllgor gyflwyno adroddiad ar y Memorandwm hwn erbyn 15 Rhagfyr, byddem yn gwerthfawrogi ymateb cyn gynted â phosibl, a dim hwyrach na dydd Gwener 26 Tachwedd, er mwyn ein galluogi i'w ystyried yn ein cyfarfod ddydd lau 2 Rhagfyr.

Cymalau 1 (Cynlluniau gwella sgiliau lleol) a 4 (dehongli)

Mae paragraff 15 o'r Memorandwm Atodol yn nodi bod diwygiadau a wnaed i gymalau 1 a 4 o'r Bil "yn cynyddu'r posibilrwydd y gallai sefydliadau yng Nghymru fod yn ddarostyngedig i'r dyletswyddau mewn perthynas â chynlluniau gwella sgiliau lleol ar gyfer Lloegr." Gan na ddarperir rhagor o fanylion yn y Memorandwm Atodol ynghylch sut, yn ymarferol, y bydd y diwygiadau yn cael yr effaith hon, a allwch ddarparu'r manylion hyn i ni?

Mewn gohebiaeth flaenorol â'r Pwyllgor, fe wnaethoch awgrymu bod trafodaethau cynhyrchiol ar lefel y swyddogion wedi'u cynnal gyda Llywodraeth Cymru mewn perthynas â diwygio'r cymalau hyn yn y Bil. Mae'r Memorandwm Atodol yn cadarnhau nad yw'r diwygiadau a wnaed yn mynd i'r afael â'ch pryderon. A allwch egluro pam mae trafodaethau o'r fath wedi arwain at wneud diwygiadau i'r Bil nad ydynt yn mynd i'r afael â'ch pryderon? A allwch gadarnhau a oes trafodaethau pellach yn mynd rhagddynt gyda'r Adran Addysg ac, os felly, a ydynt yn debygol o arwain at wneud diwygiadau i'r Bil sy'n mynd i'r afael â'ch pryderon?



A allwch ddarparu rhagor o eglurder o ran manylion y diwygiadau y byddai angen i chi eu gweld yn cael eu gwneud i'r Bil er mwyn argymhell bod y Senedd yn rhoi ei chydsyniad i gymalau 1 a 4 o'r Bil?

Cymal 25 newydd [Darparu cyfleoedd ar gyfer addysg a meithrin sgiliau]

Fe wnaethom nodi bod cymal 25 newydd wedi'i fewnosod i'r Bil. Mae'r cymal hwn yn darparu bod gan unrhyw berson o unrhyw oedran yr hawl i gael addysg am ddim ar gwrs cymeradwy hyd at Lefel 3 a gyflenwir gan ddarparwr addysg bellach neu dechnegol cymeradwy, os nad yw eisoes wedi astudio ar y lefel honno; a bod yn rhaid darparu cyllid i'r darparwr cymeradwy at y diben hwnnw. Mae hefyd yn gosod gofynion ar gyflogwyr mewn perthynas â gwario arian ar gyfer pobl ar brentisiaethau sydd o dan 25 oed.

Er bod y Nodiadau Esboniadol yn nodi y bwriedir i'r cymal hwn fod yn gymwys i bobl yn Lloegr, nid yw hyn yn cael ei adlewyrchu ar wyneb y Bil. A allwch gadarnhau a ydych o'r farn bod angen cydsyniad deddfwriaethol y Senedd mewn perthynas â chymal 25 o'r Bil ac, os ddim, pam lai?

Edrychaf ymlaen at gael eich ymateb.

Yn gywir,



Jayne Bryant AS
Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.



Jayne Bryant AS
Cadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac
Addysg Senedd Cymru
SeneddPlant@senedd.cymru

25 Tachwedd 2021

Annwyl Jayne

Diolch am eich llythyr dyddiedig 19 Tachwedd ynghylch y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 2) (SLCM Rhif 2) ar gyfer Bil Sgiliau ac Addysg Ôl-16 y DU ("y Bil") a osodwyd ar 29 Hydref. Codwyd ymholiadau gennych mewn perthynas â'r ddarpariaeth a wneir gan gymalau 1 a 4 a chan gymal 25 o'r Bil. Rwyf wedi ymateb isod.

Cymalau 1 (cynlluniau gwella sgiliau lleol) a 4 (dehongli)

Effaith y gwelliannau a wnaed i gymalau 1 a 4 o'r Bil yng Nghyfnod Adrodd Tŷ'r Arglwyddi ar 12 Hydref oedd cynyddu'r posibilrwydd y gallai sefydliadau Cymru fod yn ddarostyngedig i'r dyletswyddau mewn perthynas â chynlluniau gwella sgiliau lleol ar gyfer Lloegr. Mae'r gwelliannau i gymal 1 yn cyfyngu ar yr addysg a'r hyfforddiant o fewn cwmpas y dyletswyddau mewn perthynas â'r cynlluniau gwella sgiliau lleol i hyfforddiant ac addysg dechnegol ôl-16 "a ariennir gan Loegr" ("*English funded*"). Er hyn, mae'r gwelliannau i gymal 4 sy'n diffinio "a ariennir gan Loegr" yn cynnwys cymorth i fyfyrwyr a ddarperir gan yr Ysgrifennydd Gwladol. Yn fy nhyb i, gallai effaith gyfunol y gwelliannau hyn o bosibl olygu bod cyrsiau sefydliadau yng Nghymru, yr ymgwymerir â hwy gan fyfyrwyr sy'n hanu o Loegr ac sy'n cael cymorth i fyfyrwyr gan Lywodraeth y DU, yn cael eu hystyried yn berthnasol i anghenion sgiliau ardal leol yn Lloegr. Mae'r Bil yn darparu, pan fo addysg dechnegol ôl-16 yn berthnasol i ardal leol yn Lloegr, yna mae sefydliadau sy'n darparu'r addysg honno yn ddarostyngedig i'r dyletswyddau mewn perthynas â chynlluniau gwella sgiliau lleol a nodir yng nghymal 1(3), 1(4) ac 1(5). Mae'r ffaith bod cymorth ariannol i fyfyrwyr wedi'i gynnwys yn niffiniad darpariaeth "a ariennir gan Loegr" yn peri pryder penodol gan y gallai'r dull hwn olygu bod ystod eang o hyfforddiant ac addysg ôl-16 a gynigir gan sefydliadau yng Nghymru yn dod o fewn cwmpas y dyletswyddau mewn perthynas â chynlluniau gwella sgiliau lleol.

Mae fy swyddogion wedi bod yn ymwneud â swyddogion Adran Addysg Llywodraeth y DU ers misoedd ac maent wedi cael trafodaethau cynhyrchiol mewn perthynas â chymhwyso cymalau 1 a 4 i sefydliadau yng Nghymru. Roedd y gwelliannau a gyflwynwyd gan Lywodraeth y DU i'w hystyried yng Nghyfnod Adrodd Tŷ'r Arglwyddi yn welliant o gymharu â'r Bil fel y'i cyflwynwyd hyd yma gan eu bod yn pennu cysylltiad â chyllido darpariaeth ôl-16 gan yr Ysgrifennydd Gwladol. Fodd bynnag, nid oedd y gwelliannau'n mynd i'r afael yn

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Gohebiaeth.Jeremy.Miles@llyw.cymru
Correspondence.Jeremy.Miles@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

ddigonol â'r mater sylfaenol sy'n peri pryder, sef y dyletswyddau statudol a osodir ar sefydliadau yng Nghymru nad ydynt, yn fy nhyb i, yn angenrheidiol nac yn gymesur. Mae cymesuredd a'r tebygolrwydd y bydd sefydliadau yng Nghymru yn darparu addysg dechnegol ôl-16 a ystyrir yn berthnasol i ardal leol yn Lloegr yn faterion a godwyd gan fy swyddogion pan gawsant weld y gwelliannau drafft yn gynnar ym mis Hydref. Er hyn, nid oedd amserlen Llywodraeth y DU ar gyfer cwblhau eu gwelliannau ar gyfer y Cyfnod Adrodd yn caniatáu ar gyfer dadansoddi'r gwelliannau'n llawn na'u hailddrafftio cyn iddynt gael eu cyflwyno.

Ysgrifennais at yr Ysgrifennydd Gwladol dros Addysg ar 29 Hydref yn amlinellu fy mhryderon, gan nodi mai diben cynlluniau gwella sgiliau lleol yw sicrhau bod addysg ôl-16 ar gael i ddiwallu anghenion sgiliau cyflogwyr mewn ardaloedd penodedig yn Lloegr, a bod gosod dyletswyddau cyfreithiol ar sefydliadau yng Nghymru mewn perthynas â'r cynlluniau hyn yn ddiangen. Hysbysais yr Ysgrifennydd Gwladol yr hoffwn weld gwelliannau'n cael eu cyflwyno i gael gwared ar y dyletswyddau mewn perthynas â chynlluniau gwella sgiliau lleol ar sefydliadau yng Nghymru.


Mae trafodaethau wedi'u cynnal ar lefel swyddogol ac mae llawer o gynnydd wedi'i wneud yn yr wythnosau diwethaf i fynd i'r afael â fy mhryderon. Rwy'n falch o allu rhoi gwybod ichi fod Llywodraeth y DU wedi cyflwyno gwelliannau i'w hystyried yng Nghyfnod Pwyllgor Tŷ'r Cyffredin. Mae'r gwelliannau hynny'n mynd i'r afael â fy mhryderon ac maent ar gael yma: [skills.pbc.rm.1124.fm \(parliament.uk\)](https://skills.pbc.rm.1124.fm/parliament.uk). Rwy'n bwriadu gosod Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol pellach cyn gynted â phosibl i adlewyrchu'r gwelliannau hyn.

Cymal 25 (Sefydliadau yn y sector addysg bellach: gweithdrefn ddynodi)

Ychwanegwyd cymal 25 at y Bil yng Nghyfnod Adrodd Tŷ'r Arglwyddi. Mae'r gwelliannau a gyflwynwyd gan Lywodraeth y DU ar 24 Tachwedd ar gyfer Cyfnod Pwyllgor Tŷ'r Cyffredin yn ceisio dileu'r cymal hwn o'r Bil.

Rwyf hefyd yn anfon copi o'r llythyr hwn at Gadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Huw Irranca-Davies AS.

Yn gywir



Jeremy Miles AS

Gweinidog y Gymraeg ac Addysg
Minister for Education and Welsh Language

Atodiad 2 Llythyr at yr Ysgrifennydd Gwladol dros Addysg

Yr Gwir Anrhydeddus Nadhim Zahawi AS

Ysgrifennydd Gwladol dros Addysg

Dyddiad | Date: 24 Medi 2021

Pwnc | Subject: Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol y Bil Sgiliau ac Addysg Ôl-16

Annwyl Ysgrifennydd Gwladol,

Rwy'n ysgrifennu ar ran y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, sy'n bwyllgor trawsbleidiol yn Senedd Cymru. Mae Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol y Bil Sgiliau ac Addysg Ôl-16 wedi'i gyfeirio atom i graffu arno.

Mae gennym amser cyfyngedig ar gael i graffu ar y Memorandwm hwn; a rhaid cyflwyno adroddiad erbyn 22 Hydref. Felly byddem yn gwerthfawrogi ymateb cyflym i'n cais am wybodaeth, ac yn ddelfrydol mewn pryd i'w ystyried yn ein cyfarfod nesaf ddydd lau 7 Hydref.

Rwyf wedi atodi copi o Femorandwm Llywodraeth Cymru er gwybodaeth i chi. Rydym yn ymwybodol mai dim ond ar gyfer cymal 4 y mae Llywodraeth y DU yn ceisio cydsyniad y Senedd. Fodd bynnag, mae'r Memorandwm yn ceisio barn y Senedd ar dri chymal (1, 4 a 14.) Felly rydym wedi ystyried y tri chymal.

Rydym hefyd wedi ysgrifennu at Weinidog y Gymraeg ac Addysg ynghylch y Memorandwm hwn. Atodir copi er gwybodaeth i chi.

Cymalau 1 (Cynlluniau gwella sgiliau lleol) a 4 (dehongli)

Mae'r Memorandwm yn nodi nad yw Llywodraeth Cymru yn argymhell y dylid rhoi cydsyniad deddfwriaethol ar gyfer y ddau gymal hyn gan eu bod yn credu y gallai hyn arwain at osod dyletswyddau ar ddarparwyr Cymru. A ydych yn cytuno â'r dadansoddiad hwn?



A allwch amlinellu pa drafodaethau rydych chi, eich rhagflaenydd neu'ch swyddogion wedi'u cael gyda Llywodraeth Cymru mewn perthynas â'r cymalau hyn, a pha welliannau y maent wedi'u ceisio er mwyn eu galluogi i argymhell bod y Senedd yn cymeradwyo cydsyniad deddfwriaethol. Byddwn hefyd yn ddiolchgar pe byddech yn cadarnhau a ydych yn ymwybodol o unrhyw fwriad i gyflwyno gwelliannau i'r Bil i adlewyrchu sylwadau Llywodraeth Cymru?

Os hoffech gael rhagor o wybodaeth am y llythyr hwn, mae croeso ichi gysylltu â mi.

Yn gywir



Jayne Bryant AS
Cadeirydd

Amg: Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol y Bil Sgiliau ac Addysg Ôl-16

Llythyr at Weinidog y Gymraeg ac Addysg

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu'n Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.